LLINELL I'R BYD,

(2)

AC

ALARWM I'R EGLWYS;

SEF,

Ychydig Fyfyrdodau gwedi eu cyfanfoddi ar Gân:

Oddiar yftyriaeth o Farwolaeth y Parchedig Mr. DAFYDD EVAN; yr hwn a fu Weinidog defnyddiol yn agos i 20 Mlynedd yn y *Dolau*, pa un a ymadawodd o'i Babell Bridd i'w Dŷ, nid o Waith Llaw, ar y 14 o *Hydref*, yn y Flwyddyn 1790, yn 49 Oed.

Gan THOMAS MORRIS.

CAERFYRDDIN,

ARGRAFFWYD GAN IOAN DANIEL,

M,DCC,XCII.

LLYTHYR AT Y DARLLENYDD.

YN gymmaint ag nad yw pob peth etto wedi ei ddweud, a'r byd heb ei lenwi o lyfrau, a chan na's gall lle gwell llyfrau fod fawr llai o blegid yr ychydig linellau hyn; yr ydwyf yn gwneud mor eon arnat ti, fy nghyd-ymdeithydd tu a byd arall, a chymmaint a hyn o'm dirgel fyfyrdodau i ti am *un geiniog*; nid wyf yn ammeu, na chefaift fwy am ddim, ac, fe allai, lai am ddwy. Ond gwybydd, mai gwir ddymuniad yr hwn fydd yn dy annerch yn brefennol yw, bod i'th enaid gael ei gyfarwyddo gan yr Yſpryd, i chwilio yn ddyfal am fendith; yr hon, os cei, a'th gynnorthwya i fyned heibio i lawer o amherffeithrwydd a ddichon fod yn y gwaith. Er nad yw y maes hwn ond bychan; etto, os cei ond un gair ynddo a ddifero fraſder i'th deimlad, na ddiyſtyra er mwyn hynny, eithr cofleidia ef.

Ar ol darllain o honot y traethawd bychan hwn, dymunaf iddo un ffafr yn dy olwg, ſef cael o hono ei rwymo wrth rhyw lyfr a fo'n rhy werthfawr ei loſgi, er coffadwriaeth am y gwyr a hunodd i'r oes a ddel. Pan gefais ſicrwydd farw o'r gwr hwn, ſef *D. Evan*, wrth fyfyrio ar ei farwolaeth, mi alarnadais am dano fel y canlyn:

GALARNAD.

TRWM yw'r newydd a dramwyodd trwy froydd a brynniau Cymru; colli goleuad goleu a chyfaill llawn llarieidd-dra; y câll ni's gall lai

lai nâ'i gyfrif yn golled o'i gymmeryd ymaith. *David Evan*, yr hwn a garwyd, ac a garodd; a dynnwyd, ac a redodd; yr hwn hefyd a hunodd o flaen llawer o'i dadau. Boreu iawn y cafodd le yn y winllan oreu. Diwyd iawn y bu ynddi. Brydnhawn cynnar y gorphennodd ei holl lafur. Gwnawd galar am rai oedd lawer llai eu defnydd nag efe. Fy mrawd, fy nhad, yr hwn ni fradychodd ei gyfeillion, ac ni wenieithodd i'w elynion. Ffyddlon fu yn achos ei Ddduw; miniog oedd ei arfau, medrus oedd ei fyfedd, gwrol y fafodd yn nydd cyfyngder, ac ni chiliodd mewn awr o brofedigaeth. Hoff gennyf gofio'r oriau a'r dyddiau y bum yn ei gyfeillach; y llythyrau a ddanfonodd a ddarllenaf, ei gynghorion ynddynt a dderbyniaf, a'i ffyddlondeb nid anghofiaf. Pan ymadawfom ddiweddaf, ni's gwyddwn mai mewn byd arall y cyfarfyddem nefaf. Ymhlith rhai halogedig fe'i cafwyd; fe'i plannwyd wedi'n ymhlith y rhai a fanctteiddiwyd. Ei fothach a olchwyd ymaith, ei alcam a lyngcwyd, ei noethder a wifgwyd, ac nid â brethyn o'i waith ei hun.— Er bod ei wraig yn weddw, a'i blant yn ymddifaid, yr hwn fydd yn fyw, ac a fu farw, ac fydd yn byw yn oes oefoedd, a ofala am danynt. Y praidd hefyd a gywir arweiniodd amryw flynyddoedd yn yr anialwch, fydd wedi eu gadael megis defaid heb un bugail. Os rhaid iddynt wrth athraw arall, arofed yr un athrawiaeth yn eu plith; yr hon fydd fel mynydd o ran ei chadernid, fel haul o ran ei goleu, fel tân o ran ei gwres, ac fel mêl o ran ei meluſdra.

MARWNAD, &c.

1 ERGYD newydd ar ol ergyd,
Wy'n ei gael mewn anial maith,
Fe ddaeth newydd trwm drachefn,
I'm cyfarfod ar fy nhaith;
Mi fum dri ar ddeg o ddyddiau
'N methu credu'r gwir yn iawn,
A than grynu, yn gobeithio
Y troi'r hanes ryw brydnhawn.

2 *Dafydd Evan* fwyn o'r *Doleu*,
Milwr medrus ar y maes;
Fe adwaenai hen ddichellion
Creulon ei elynion cas;
Yr oedd Tywyſog mawr y bywyd
Yn ſefyll ar ei ddeheulaw,
A thrwy filoedd o beryglon,
Aeth yn iach yr ochr draw.

3 Cafodd ras, a chafodd ddoniau,
Beth ni's cafodd gan ei Dduw,
Ond y pethau gallſai'n hylwydd
Fyw a marw heb y rhyw:
Fe yw un o'r goleuadau,
A lewyrchodd yn y byd,
Heb un cwmmwl dû na diffyg,
Diſglair iawn y bu o hyd.

4 Dyma ſydd yn gwneud i'm hyſbryd
I alaru ymhob lle,
Credu fod y *Garth* a'r *Doleu*
'Nawr yn wag o hono 'fe;
Yr oedd llawer yn y gwerſyll
Yn haws eu hebgor yn ddilai;
Yr oedd e' fel deg o filoedd,
O ran ei ddefnydd yn parhau.

5 Colli

5 Colli ffrynd, a cholli cyfaill,
Colli brawd, a cholli tad,
Colli dyn oedd wedi ei glirio
'N ddiamheuol yn y gwaed;
Colli udgorn arian gloyw,
Colli athro llawer gwr,
Colli canwyll, colli ſeren,
Colli cwmmwl llawn o ddw'r.

6 Colli bugail, colli blaenor,
Colli eſgob mawr ei ddawn,
Colli un o'r efangylwyr,
Fedrai wneud ei waith yn iawn;
Colli angel ac apoſtol,
Fu yn ffyddlon yn ei ddydd;
Bendithiodd Duw ei weinidogaeth,
I dd'od â llawer caeth yn rhydd.

7 Colli ŷch o lawr y dyrnu,
Oedd yn dwyn yr iau o hyd,
Colli tyſt o adgyfodiad
Gwir Achubwr mawr y byd;
Colli un o'r gwilwyr gorau,
Oedd yn gwilio ar y mur;
Canol bwynt ei weinidogaeth
Oedd taflu'r gwael oddiwrth y gwir.

8 Colli lleſtr pridd a ddygai
'R tryſſor gorau ar y llawr;
Colli cennad ffyddlon hefyd,
Ddaeth i maes dros Ieſu mawr:
Fe oedd un o'r meini coron,
Mae e' ynddi 'nawr yn fyw,
Gweddaidd iawn ymhlith y ſyddin,
A phêr ganiadydd Iſrael Duw.

9 Colli mammog o'r mammogiaid,
Didwyll laeth oedd e'n ei ddwyn;

Ymddiriedwyd iddo hefyd,
Borthi'r defaid mân ar wŷn;
Gwilio'r praidd yr oedd e'n ddyfal,
Rhag y drwg ſydd ar y llawr;
Y mae brefu prudd am dano,
Ymhlith y diadellau 'nawr.

Nid wrth rym diſgeidiaeth ddynol,
Ond wrth oleu nefol dân,
Yr oedd gweinidogaeth *Dafydd*
Yn cael ei chario yn y blaen;
Pan y byddai yn ei gadair,
A chael Yſbryd gyd â dawn,
Fe bregethai'n awdurdodol,
Ne's toddi calon galed iawn.

Y mae cyfraith ac efengyl
'Nawr yn aros îs y ne',
A'r gwahaniaeth rhwng y rhei'ny
'N hwylus a bregethai 'fe;
Llanwai gawell mawr o ſaethau,
Fe'u danfonai gyd â grym;
Yr oedd ei Arglwydd yn ei arddel,
Onid ê ni all'ſai ddim.

Gwedi lladd yn ddigon marw,
Gwedi clwyfo'n ddwfn iawn,
Fe gyhoeddai'r iachawdwriaeth
Gyd â rhyw ſerchowgrwydd llawn;
Yr hyn a welais ac a glywais,
Ac a deimlais i fy hun,
Wyf yn ddweud i'ch clywedigaeth,
Yn gyhoeddus am y dyn.

Bywyd hardd a doniau peraidd,
Yſbryd goſtyngedig iawn,
Ffordd yr a'i, os de'i drachefn,
Byddai iddo roeſaw llawn:

Fe fu defnydd *Dafydd Evan*,
Cy'd a'i ddyddiau yn y byd,
Credodd egwyddorion iachus,
Safodd ynddynt hwy o hyd.

14 Fe ymdrechodd yn gyfreithlon,
Fe ymdreuliodd dros ei Dduw,
Galwai'n fwyn y dynion diras,
Arlwyai fwrdd i bobl fyw:
Safodd rhwng y byw a'r meirw,
Calon friw a thalcen pres;
'Roedd e'n debyg i'w ei Arglwydd,
Yn llafaru gyd â gwres.

15 Gwyddai wa'n rhwng hauł a chanwyll,
Gwyddai wa'n rhwng dydd a nos,
Gwyddai wa'n rhwng hwyl a rhwyfau,
Pan oedd yma dan y groes;
Gwyddai wa'n rhwng rhith a ſylwedd,
Cafodd olew gyd â lamp;
Fe ymdrechodd yn gyfreithlon,
Mae e' wedi cael y gamp.

16 Cedyrn Iſrael ſy'n galaru,
A'r cyffredin gyd â hwy,
Mewn cymmanſa neu gwarterau,
Ni welwn ni 'mo hono mwy;
Un o gedyrn y Bedyddwyr,
Ga's ei gym'ryd tu a thre';
Mae defaid eraill yn galaru,
Gyd â hwy am dano 'fe.

17 O *Gilfowir* y daeth e' allan,
A llawer eraill gyd ag ef,
O ddynion doniol awdurdodol,
Gwir anianol gan y nef;
Mae *Cilfowir*, a *Rhydwilim*,
A *Llangloffan* fawr yn un,

Gwed

Gwedi meithrin llu o wilwyr,
I wilio defaid Criſt ei hun.

18 Yr oedd e', a phraidd ei ofal,
Yn gariadus iawn o hyd,
Ac yn gwneuthur dros eu gilydd,
Yr hyn a allent yn y byd;
Ni bydd hynny ddim yn rhwyſtr
I gael un arall yn ei le;
Y neſa' ddelo i'ch gwaſanaethu,
Fo'n gyffelyb iddo 'fe.

19 Mi gofia'r wraig a'r plant ymddifaid,
Sy'n galaru ar ei ol,
Gyd â'r eglwys fwyn heddychol,
Lle bu e' ganwaith yn eu co'l;
Mi welaf eich wynebau'n bruddaidd,
Mae'n bryd i ſychu dagrau bant;
Mae Tywyſog mawr y bywyd,
Yn aros etto gyd â'i blant.

20 Mae e'n well nâ chraig mewn 'ſtorom,
Mae e'n well nâ llong mewn llif,
Mae e'n well nâ march i wared,
A gwell ei ffrwyth nâ dim a dŷf:
Mae e'n well nâ haul mewn ty'llwch,
Mae e'n well nâ gwin i'r gwan,
Mae e'n well i'r claf nâ meddyg,
Fe'n gwna yn holl-iach yn y man.

21 Beth yw tad a mam yn angeu?
Ni ddichon brawd fy nal i'r lan;
Pwy o'm holl gyfeillion anwyl,
Ddichon ſefyll ar fy rhan?
Rhai'n myn'd 'nol, a rhai'n myn'd adre',
A finnau'n byw mewn dw'r a thân,
Gan fod Ieſu yn y frwydr,
Mi gaf oruchafiaeth lân.

22 Y mae dynion wrth y miloedd
Yn myn'd o hyd tu ag uffern driſt,
Er fod llawer, O mor lleied
Sy'n gwahodd at Ieſu Griſt!
Frodyr yn y weinidogaeth,
Rhowch eich pennau goleu 'nghyd,
A'ch calon raſol fo'n myſyrio,
P'odd i fyn'd ymlaen o hyd.

23 Y mae rhai yn d'rogan drygfyd,
A bod adfyd yn neſhau,
A bod y cyfiawn yn myn'd adre',
Cyn y delo dyddiau gwae:
Nid yw cym'ryd tri neu bedwar,
Yn arwydd leia' im' o lid;
'Chreda'i ddim o'r addyſg honno,
Onid awn ni bron i gyd.

24 Fe fu *Dafydd Evan* farw,
Pan y darfu ei waith e' gyd;
Nid oedd 'chwaneg wedi dorri
Allan iddo yn y byd:
Nid o henaint bu e' farw,
Cennad arall ddaeth i'w hol;
Yn y De' ac yn y Gogledd,
Mae galaru ar ei ol.

25 Chwech ar hugain o benhillion,
Sydd yn tyſtio îs y ne',
Fy mod yn cario rhyw feddyliau
Helaeth iawn am dano 'fe;
Gall'ſwn ganu cant yn 'chwaneg,
Yr oedd fy nhelyn yn ei hwyl,
Fel pe bu'ſwn draw yn Salem,
Gyd â *Dafydd* yn yr wyl.

26 Fe ddylaſai marwnadau,
Er ys dyddiau dd'od i maes,

Gyd

Gyd â mwy o ardderchowgrwydd,
Ac yn llawer gwell eu blas;
Am rinweddau gras neu ddoniau,
Ddywedo neb fod yn y dyn,
Mae'r gogoniant byth yn perthyn
I'r Gwr fu ar y pren ei hun.

Ychydig Linellau er Coffadwriaeth am y diweddar Barchedig DAFYDD MORYS, *Gweinidog y Bedyddwyr yng* Nghaerfyrddin.

O Mor wael yw marwolion,
Yn y groes ddihiroes hon!
Ow marw yw *Dafydd Morys*,
Aeth o'r byd breulyd mewn brys;
Bu farw mewn llanw a lli',
Ar waelod tywod *Tywi*.
Marw wna'r câll, deall doeth,
Yr unwedd a'r gwr annoeth,
Diweddir rhif eu dyddiau,
Un wedd eu diwedd eu dau!
Yn y gwys gorphwys e' gaid,
Gwr anwyl, gywir enaid;
Câr anwyl, cywir union,
Ufudd was dan ras yr Ion:
Gweinidog, neu gennadwr,
I Dduw Sion dirion dwr.
Yn gynnar oed, rhoed mewn rhych
Diwygiwr godidowgwych:
Trwyddo y daeth, odiaeth oedd,
Fywyd i gymmanfaoedd;
Mae colled fyned i fedd
Wr enwog mewn gwirionedd;
Yn ol ei oes, croes y cri,
Troe gloefion trwy eglwysi;

Lle

Lle bu'n ffyddlawn, uniawn wr,
Yng alwad efangylwr;
Diſgynned, deled o'i ol
Ran o'i addyſg rinweddol,
I'w frodyr drwy hyfrydwch,
Mwynder llawn cyn myn'd i'r llwch:
Ei athrawiaeth odiaeth oedd,
Llais melus, êr lles miloedd;
Dwfn addyſg tra defnyddiol,
I rai ſy'n byw ar ei ol.
Gwr anwyl, ei arwyl oedd
Alarwm i laweroedd;
I'w Briod wiw ber ewig,
Y loes yn dromloes a drig:
Naturiaeth cnawd daearol,
Naturiaeth alaeth o'i ol;
Hiraeth fel plwm trwm y trig
I'w frodyr ſy'n friwedig;
Ond ofer yw un defawd
Wylo 'nol hyfrydol frawd,
Dyledſwydd a ſwydd y ſant
Yw gweini i ogoniant
Y Gwr ſy'n llawn trugaredd,
Cyfrannwr, Rhoddwr yr hedd.
Ond am *Ddafydd* gelfydd gu,
Gyweithas fu'n pregethu,
Cerub ar adain cariad,
A'i dug ef i loyw-nef wlad;
Awn ninnau ar ben einioes,
Ar ei ol ef i'r ail oes.

☞ Heddyw y cyhoeddwyd, *Cr*
cyflawn, pris 9c. ac *Etholedig*
edigaeth, pris 6ch. y ddau g

HYMN.

1 MI ddes i maes o'r Aipht yn fiwr,
Er cryfed gwr oedd Pharao;
Er llid y ddraig, a lled y môr,
Fy nwyn wnaeth Iôr oddi yno.

2 Pan byddo'm hyfbryd yn ei hwyl,
I gadw gwyl i'r Arglwydd,
Ynghanol croefau blinion iawn
'Rwy'n gyflawn o foddlonrwydd.

3 Ond anfoddlonrwydd yn y man
A ddaw i'm rhan drachefen;
A thywyll ar fy enaid bydd,
Pan gollwy' fudd y feren.

4 Y feren ddaeth o'r dwyrain draw,
Y doethion ddaw i'w chanlyn;
Bob cam i 'mofyn Adda'r ail,
Cawn oleu haul i'w ddilyn.

5 Ei ddilyn trwy y dw'r a'r tân,
A myn'd ymlaen er gwaetha';
Ynghanol fy ngelynion cas,
Caf rym ei ras i bara.

6 Para'r nos, a phara'r dydd,
Cawn fyn'd yn rhydd ar fyrder;
Caiff gwir ganlynwyr Iefu gwiw,
Er trengu, fyw mewn llawnder.

7 Mewn llawnder mawr o bob peth da,
[illegible] na phla, na phrinder;
[illegible] iawn dros byth yng ŵydd
[illegible]wydd ein cyfiawnder.

[illegible]TERFYN.